# Cyfleoedd i Ariannu Ymchwil 2018: Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil

Mae RCBC (Cydweithrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru - *Research Building Capacity Collaboration Wales*) (http://www.rcbcwales.org.uk) yn falch o gyhoeddi bod cyllid ar gael i ariannu eu Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil (FiR) mewn Nyrsio, Bydwreigiaeth, Fferylliaeth a Phroffesiynau Iechyd Perthynol i gychwyn ym mis Mehefin 2018. Gwahoddir ceisiadau gan bobl broffesiynol gofrestredig gymwys ym maes iechyd ar gyfer hyd at chwe cymrodoriaeth wedi'u hariannu gan RCBC Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Dyfernir y Cymrodoriaethau i'r Prifysgolion sy'n rhan o'r cydweithrediad (rhestrir y sefydliadau isod).

Bydd RCBC Cymru yn ariannu'r Cymrodoriaethau 'Newydd i Ymchwil' am un dydd yr wythnos am 12 mis. Targedir y Cymrodoriaethau ar gyfer rhai sy'n newydd i faes ymchwil, neu rai'n dymuno datblygu hyder mewn ymchwil, i weithio ar brosiectau'n chwilio am atebion i gwestiynau perthnasol i fyd Nyrsio, Bydwreigiaeth, y Proffesiynau Iechyd Perthynol a Fferylliaeth yn y meysydd a ddynodir. Rhaid i'r prosiectau fod yn rhai y gellir eu cyflenwi o fewn yr amserlen a gall rhain fod ar draws sbectrwm eang yn ymestyn o strategaethau sefydliadol i ymchwil unigol mwy cynnil.

Bwriad cronfeydd dderbyn ydy cyfrannu i ryddhau'r Cymrawd o'i (g)waith dyddiol. Caiff pob Cymrawd ei (g)oruchwylio gan ymchwilwyr profiadol ac mae'n bosib byddan nhw'n cael mynediad i hyfforddiant dulliau ymchwil gan y Brifysgol sy'n eu lletya. Bydd pob Cymrawd yn dod yn aelodau o Gymuned yr Ysgolorion (Community of Scholars - CoS) ac yn mynychu dyddiau astudio 'CoS'. Bydd angen i'r Cymrodyr gyflwyno eu hymchwil ar ddiwedd y cynllun mewn seminar arddangos gwaith.

Dylai pob cais fod wedi ymrwymo i themâu a blaenoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Sefydliad perthnasol maen nhw'n gwneud cais ar ei gyfer wrth gynorthwyo a datblygu ymchwil rhagorol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar iechyd, llesiant a ffyniant pobl Cymru. Gallai'r rhain gynnwys astudiaethau i unrhyw agwedd o nyrsio, bydwreigiaeth, gofal iechyd perthynol neu fferylliaeth sydd â ffocws arbennig ar ymchwil iechyd cyhoeddus a chymwysedig ac sy'n cyfrannu at sail tystiolaeth ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal, canfod a diagnosis afiechydon; datblygu a gwerthuso ymyriadau; darparu gwasanaethau gofal iechyd; a rhoi canfyddiadau'r ymchwil ar waith. Ceir rhagor o wybodaeth am Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar http://www.healthandcareresearch.gov.wales/.

Yn ogystal, byddem ni'n dymuno annog cynigion sy'n ystyried ymglymu'r cyhoedd mewn ymchwil, bod â photensial i gael effaith ac sy'n ystyried:

- rolau proffesiynol newydd ac egin rolau proffesiynol
- gofal integredig
- egwyddorion gofal iechyd doeth h.y.:
  - cleifion a phobl broffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gyd-gynhyrchu
  - gofal ar gyfer y rheiny sydd â'r angen mwyaf yn gyntaf
  - gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig a pheidio â gwneud unrhyw niwed
  - lleihau amrywiaeth anaddas drwy ddulliau o fynd ati sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Meini Prawf Cymhwyster**

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn gofrestredig yn y DU fel Nyrs, Bydwraig, Fferyllydd neu'n Weithiwr Proffesiynol Cysylltiedig ym maes Iechyd (h.y. rhaid eu bod wedi cofrestru gyda'r NMC, GPC neu HCPC ar gychwyn yr astudiaeth). Defnyddir y diffiniad o Bobl Broffesiynol Cysylltiedig Iechyd sydd i'w gael ar Gofrestr Cyngor Proffesiynau Iechyd, (gweler http://www.hpc-uk.org/aboutregistration/professions/) ac mae'n ymgorffori tua 16 o wahanol broffesiynau iechyd. Gallai gwyddonwyr biofeddygol a gwyddonwyr clinigol fod wedi'u cofrestru gyda'r HCPC neu wedi'u cofrestru drwy drefniadau rheoleiddio gwirfoddol cydnabyddedig drwy'r Academi Gwyddor Gofal Iechyd. Sylwer nad ydy galluoedd ariannu RCBC Cymru yn caniatáu ystyried pobl broffesiynol sydd y tu allan i'r grwpiau hyn o bobl broffesiynol gofal iechyd.
- Yn arferol, dylai ymgeiswyr fod â gradd gyntaf neu gyfwerth o Brifysgol neu Sefydliad y mae'r 6 Sefydliad Addysg Uwch sy'n rhan o RCBC Cymru yn eu cydnabod.
- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod yn preswylio yng Nghymru drwy gyfnod y gymrodoriaeth.
- Sylwer nad ydy RCBC Cymru yn gorff sy'n cyflogi a rhaid i bob Cymrawd fod yn gyflogedig yng Nghymru er mwyn derbyn y Gymrodoriaeth.

Rheolir y broses recriwtio ar gyfer y Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil gan Brifysgol De Cymru gyda mewnbwn gan bob un o'r Prifysgolion sy'n rhan o'r cydweithrediad. Lleolir y cymrodoriaethau o fewn grwpiau ymchwil sefydledig yn yr Ysgolion/Adrannau sy'n cael eu rhestru isod. Caiff o leiaf un goruchwylydd ei aseinio i bob Cymrawd, gyda'r prif fentor wedi ei leoli o fewn un o Ysgolion/Adrannau'r bartneriaeth RCBC.

Bydd y broses o wneud cais fel â ganlyn:

1. Rhaid cwblhau ffurflenni gwirio cymhwyster a'u dychwelyd at marina.mcdonald@southwales.ac.uk ar unrhyw adeg hyd at **Ebrill 30ain 2018**.
2. Hysbysir ymgeiswyr o fewn 10 diwrnod gwaith, o ddyddiad derbyn y ffurflen wirio, a ydyn nhw'n cwrdd â'r meini prawf cymhwyster.
3. Caiff ymgeiswyr cymwys wahoddiad i fynychu gweithdy 'cynnig cyn cyflwyno'. Cynhelir dau weithdy cyffelyb, y naill yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Ne Cymru a chynigir cyfle i ymgeiswyr fynychu un gweithdy. Y cyntaf i'r felin fydd hi o ran dewis pa weithdy i'w fynychu. Drwy broses ail-adroddol, caiff ymgeiswyr gyfle i drafod a mireinio eu syniadau gydag arbenigwyr ym maes cynllunio ymchwil, dulliau ansoddol a meintiol, ymglymiad cleifion, moeseg, a pholisi iechyd a gwella gwasanaethau. Fe fyddan nhw hefyd yn ystyried cynyddu'r effaith a rheoli eu prosiect. Cynhelir y gweithdai yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn **Mai 7fed 2018**.
4. Yn dilyn y gweithdy, gwahoddir yr ymgeiswyr i gyflwyno ffurflen gais gyflawn erbyn **Mehefin 22ain 2018**.
5. Ar ôl tynnu rhestr fer o'r ceisiadau cyflawn, gwneir y dewis drwy gyfweliadau. Mae'n fwy na thebyg y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn **Gorffennaf 9fed 2018**.
6. Bydd y Cymrodoriaethau'n cychwyn fis **Medi 2018**.

Mae'r ffurflenni cais perthnasol a chyfarwyddyd pellach (gan gynnwys manylion ariannu) ar gael yma http://www.rcbcwales.org.uk/funding-opportunities/

Am wybodaeth am y cyfleoedd penodol, cysylltwch â'r sefydliadau perthnasol yn uniongyrchol (rhestrir y manylion isod). Am ymholiadau cyffredinol cysylltwch â Marina McDonald, RCBC Cymru, Prifysgol De Cymru. E-bost: marina.mcdonald@southwales.ac.uk Ffôn: 01443 483070

**Sefydliadau sy'n rhan o'r Cydweithrediad a Manylion Cyswllt:**

Prifysgol De Cymru
Cyfadran y Gwyddorau Bywyd ac Addysg
Arweinwyr Gweithredol: Yr Athro Joyce Kenkre
E-bost: joyce.kenkre@southwales.ac.uk
neu Dr Gina Dolan
E-bost: gina.dolan@southwales.ac.uk

Prifysgol Bangor
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Sion Williams
E-bost: sion.williams@bangor.ac.uk

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ysgol y Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Robert Mayr
E-bost: rmayr@cardiffmet.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Yr Athro Danny Kelly
E-bost: KellyDM@cardiff.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr
Adran Gwyddorau Cymdeithasol ac Addysg
Cyswllt: Dr Joanne Pike
E-bost: j.pike@glyndwr.ac.uk

Prifysgol Abertawe
Ysgol y Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Jaynie Rance
E-bost: j.y.rance@swansea.ac.uk